serohomes

# Parc Hadau

## Neighbour update | August 2020
## Newyddion diweddaraf i'n cymdogion | Awst 2020



### Timeline

| | |
|---|---|
| August 2020 | Habitat creation & reptile relocation |
| Autumn 2020 | Enabling & groundworks |
| End of 2021 | Construction of homes complete |
| Early 2022 | Homes ready for residents to move in |

### Amserlen

| | |
|---|---|
| Awst 2020 | Creu cynefinoedd ac adleoli ymlusgiaid |
| Hydref 2020 | Galluogi a gwaith paratoi'r tir |
| Diwedd 2021 | Cwblhau adeiladu'r cartrefi |
| Yn gynnar yn 2022 | Cartrefi'n barod i breswylwyr symud i mewn |

### Stay in touch!

To help explain the scheme we would like to invite you to join us for a (socially distanced) walk over the land before the construction starts. This aims to provide you with a greater understanding of the scope of work being carried out. If this is of interest to you, or if you've got any questions or concerns, please do get in touch with us by email Hello@Parc-Hadau.Wales, phone 029 2000 1415 or by visiting our website www.parc-hadau.wales. Thanks!

### Cadwch mewn cysylltiad!

I helpu i esbonio'r cynllun, hoffem eich gwahodd chi i ymuno â ni am daith gerdded (gan gadw pellter cymdeithasol) dros y tir cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Nod hyn yw rhoi dealltwriaeth well i chi o raddfa'r gwaith sy'n cael ei wneud. Os ydy hyn o ddiddordeb i chi, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae pob croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bostio Hello@Parc-Hadau.Wales, ffonio 029 2000 1415 neu drwy fynd i'n gwefan www.parc-hadau.wales. Diolch!

TeamSero



Hi neighbours,

We hope you've been safe, and well during lockdown. Like yourself, we've been navigating the pandemic and lockdown, so we're sorry we've been a little quiet since our last update. There's still plenty we've been progressing behind the scenes, and we are now beginning to pick up the pace again, so you'll soon be seeing a lot more activity from us.



Helo gymdogion,

Gobeithio eich bod wedi cadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod clo. Fel chi, rydym ni wedi bod yn llywio'n ffordd drwy'r pandemig a'r cyfnod clo, felly mae'n flin gennym am fod yn weddol dawel ers ein diweddariad diwethaf. Ond rydym ni wedi symud cryn dipyn yn ei flaen tu ôl i'r llenni, ac erbyn hyn rydym yn dechrau cyflymu'r gwaith eto, felly byddwch chi'n gweld tipyn yn fwy o weithgarwch gennym ni cyn hir.



## Moving day! Relocating our reptiles & toads.

Over the next few weeks, we'll have some specialists on site to help relocate our current residents - small reptiles and toads. Using specialist fences, we're separating part of the land near to the woods to provide a construction free sanctuary for our reptile and amphibian friends. Under the guidance of our expert ecologists, we'll be using dead wood, rocks and similar materials to construct new feeding and hibernation habitats - providing an even better environment than they're used to!

In order for this to work, and keep the reptiles safe, it's really important that the specialist fencing remains intact. If you see any damage, we'd really appreciate you letting us know by phoning 029 2000 1415 so we can quickly drop by and fix it.

## Diwrnod symud! Adleoli ein hymlusgiaid a'n llyffantod

Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, bydd gennym ni arbenigwyr ar y safle i helpu i adleoli ein preswylwyr presennol – sef ymlusgiaid bach a llyffantod. Gan ddefnyddio ffensiau arbenigol, byddwn ni'n gwahanu rhan o'r tir wrth ymyl y coed i gynnig lloches sy'n rhydd rhag gwaith adeiladu ar gyfer ein ffrindiau yr ymlusgiaid a llyffantod. Dan arweiniad ein hecolegwyr arbenigol, defnyddiwn ni bren marw, cerrig a deunyddiau tebyg i greu cynefinoedd bwydo a gaeafgysgu – i gynnig amgylchedd sydd hyd yn oed yn well nag maen nhw wedi arfer ag ef!

Er mwyn i hyn weithio, a chadw'r ymlusgiaid yn ddiogel, mae'n bwysig iawn bod y ffensiau arbenigol yn aros yn gyflawn a di-fwlch. Os gwelwch chi unrhyw ddifrod, byddem ni'n ddiolchgar iawn pe baech yn rhoi gwybod i ni drwy ffonio 029 2000 1415 fel y gallwn ni alw heibio a'i drwsio.






## Cracking on with construction.

After safely relocating our reptile friends, we'll commence construction work. We anticipate it'll be autumn before we start, with our first priority being to resolve site drainage and water run-off, as flagged by neighbouring residents.

This work will involve building ponds and channels within the land which act to slow the speed of the water run-off. Whilst protecting your homes from flooding and damp, the work will create a superb environment for nature to thrive and provide a safe habitat for those returning reptiles and amphibians when the new homes are built.

At around the same time, we'll be undertaking the work to form the home foundations and the base for the circular driveway around them. Undertaking these groundworks, and moving around lots of earth, will inevitably result in us creating some mud and dust (depending on the weather), so we'll do our very best to keep this phase short, and as clean as possible. We'll have road sweepers and lorry wheel washing regularly during this work, and if it's dry and dusty, car washing too.

Doing this all in one go reduces any inconvenience, ensuring the area gets back to being fairly clean and the quieter phase of building new homes can begin - we expect you'll be able to start seeing these taking shape early in the New Year, with the first homes ready in early 2022.

## Bwrw ymlaen â'r gwaith adeiladu.

Ar ôl adleoli'n ffrindiau yr ymlusgiaid yn ddiogel, dechreuwn ni'r gwaith adeiladu. Nid ydym yn rhagweld dechrau cyn yr hydref, gan mai rhoi sylw i ddraeniad y safle a dŵr ffo, a dynnwyd at ein sylw gan breswylwyr cyfagos, yw ein blaenoriaeth bennaf.

Bydd hyn yn golygu adeiladu pyllau a sianeli o fewn y tir sy'n gweithredu i arafu cyflymder y dŵr ffo. Ar yr un pryd ag amddiffyn eich cartrefi rhag llifogydd a lleithder, bydd y gwaith yn creu amgylchedd ardderchog i natur ffynnu ac yn cynnig cynefin diogel i'r ymlusgiaid ac amffibiaid sy'n dod yn ôl pan fydd y cartrefi newydd wedi eu codi.

Tua'r un pryd, byddwn ni'n ymgymryd â'r gwaith i ffurfio sylfeini'r cartrefi a sail y dreif-ffordd gron o'u cwmpas. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn i baratoi'r tir, a symud llawer o bridd o gwmpas, mae'n anochel y byddwn yn creu tipyn o laid a llwch (yn dibynnu ar y tywydd), felly gwnawn ein gorau glas i gadw'r cyfnod hwn yn fyr, ac mor lân â phosibl. Bydd gennym ni gerbydau ysgubo'r ffordd a chyfarpar golchi olwynion loriau yn rheolaidd yn ystod y gwaith hwn, ac os bydd hi'n sych ac yn llychlyd, golchi'r ceir hefyd.

Mae gwneud hyn i gyd ar yr un pryd yn lleihau unrhyw anghyfleuster, gan sicrhau bod yr ardal yn mynd yn ôl i fod yn weddol lân ac y gall cyfnod tawelach adeiladu'r cartrefi newydd ddechrau – disgwyliwn y byddwch chi'n gallu gweld y rhain yn dod i'r golwg yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, gyda'r cartrefi newydd yn barod yn gynnar yn 2022.

## Forgotten the details of Parc Hadau's new homes?

As a quick recap, we've got approval to build 35 new homes and a small shared community space or shop on the land near you. But these aren't any old homes!

We're building true zero carbon homes – as far as we know, Parc Hadau will be the first neighbourhood in the world to operate with no carbon emissions, thanks to some clever controls and monitoring from our sister company Sero. The new homes will be set in a vibrant landscape that encourages wildlife and nature to thrive alongside your new (human) neighbours, meaning they help to tackle the biodiversity crisis as well as the climate emergency.

## Wedi anghofio manylion cartrefi newydd Parc Hadau?

I'ch atgoffa'n gryno, mae gennym ni gymeradwyaeth i adeiladu 35 o gartrefi newydd a man cymunedol cyffredin bach neu siop ar y tir yn eich ardal chi. Ond nid unrhyw hen gartrefi ydy'r rhain!

Rydym ni'n adeiladu cartrefi gwir di-garbon – hyd y gwyddom ni, Parc Hadau fydd y gymdogaeth gyntaf yn y byd i weithredu heb unrhyw allyriannau carbon, diolch i rai rheolaethau clyfar a monitro gan ein chwaer-gwmni, Sero. Caiff y cartrefi newydd eu gosod mewn tirwedd bywiog sy'n annog bywyd gwyllt a natur i ffynnu ochr yn ochr â'ch cymdogion (dynol) newydd, sy'n golygu eu bod yn helpu i fynd i'r afael â'r creisis bio-amrywiaeth yn ogystal ag argyfwng yr hinsawdd.

